ATHROFA **PADARN** SANT
ST **PADARN'S** INSTITUTE

Dogfennau canllaw: Moeseg Ymchwil

Atodiad 1: Canllaw ar Leoliadau a Myfyrdodau ar sail Profiadau

Atodiad 2: Canllaw ar Gydsyniad ar sail Gwybodaeth

Atodiad 3: Canllaw ar Gyfrinachedd ac Anhysbysrwydd

Atodiad 4: Canllaw ar Gynnal Cyfweliadau

Atodiad 5: Gweithdrefn ar gyfer Ymdrin â Data

Atodiad 6: Canllaw ar gyfer y Ffurflen Gydsynio i Gyfranogwyr

Atodiad 7: Canllaw ar gyfer y Daflen Wybodaeth i Gyfranogwyr

Atodiad 1: Canllaw ar Leoliadau a Myfyrdodau ar sail Profiadau

Nid yw gwaith sy'n arwain at leoliad neu fyfyrdodau eraill ar sail profiadau fel arfer yn cyfri fel gwaith ymchwil at ddibenion y polisi hwn. Er y gall y dysgwr ddefnyddio cyfarfyddiadau ag eraill ar gyfer eu myfyrdodau, pwyslais y ffurfiau hyn o asesu yw hunan-fyfyrio ac integreiddio hynny gydag ymholiadau diwinyddol beirniadol. Bydd y ffynonellau myfyrio yn bennaf yn cynnwys cyfnodolion, storïau personol, gwerthusiad gan eraill o weithgaredd penodol yr oedd y myfyriwr yn rhan ohono yn ddiweddar, a ffynonellau tebyg, yn hytrach na manylion personol unigolion. Maent yn llai tebygol o gynnwys dulliau ymchwil amlwg fel holiaduron, cyfweliadau, grwpiau ffocws neu arsylwadau ffurfiol gan unigolion. Pan fyddant yn cynnwys dulliau o'r fath, neu os oes unrhyw resymau eraill dros farnu bod prosiect ymchwil ffurfiol yn cael ei gynnal, rhaid dilyn y broses cymeradwyo moeseg.

Atodiad 2: Canllaw ar Gydsyniad ar sail Gwybodaeth

Rhaid i'r holl gyfranogwyr mewn gwaith ymchwil roi eu cydsyniad ar sail gwybodaeth i gymryd rhan. Lle y bydd unigolion penodol yn cael eu gwahodd, dylid gofyn am eu cydsyniad yn ysgrifenedig. Rhaid hysbysu'r cyfranogwyr, yn ysgrifenedig, ynghylch natur y gwaith ymchwil a'u cyfranogiad ynddo, unrhyw risgiau, ac at ba ddibenion y bwriedir defnyddio'r wybodaeth a roddir ganddynt. Bydd hyn yn sicrhau bod eu cydsyniad wedi'i roi ar sail gwybodaeth, ei fod yn ddilys ac wedi'i roi o'u gwirfodd. Dylid egluro'n glir faint o bobl a fydd yn darllen y prosiect terfynol hefyd; p'un a fydd yn cael ei ddarllen gan yr arholwyr yn unig, y bydd ar gael i ddefnyddwyr y llyfrgell, neu'n cael ei gyhoeddi yn fwy eang. Yn ogystal, rhaid gofyn am ganiatâd ar gyfer y gwaith ymchwil arfaethedig gan unrhyw sefydliad, ysgol neu eglwys lle y mae'r gwaith ymchwil yn cael ei wneud. Os bydd y cyfranogwyr yn cael eu recriwtio gan gleientiaid darparwr gwasanaethau penodol, p'un a yw'n gyhoeddus neu'n breifat, rhaid gofyn am ganiatâd ysgrifenedig gan y darparwr hwnnw, e.e. y GIG, y Gwasanaethau Cymdeithasol neu'r Gwasanaeth Carchardai. Os yw cyfranogwyr o dan 16 oed yn rhan o unrhyw waith ymchwil, rhaid cael cydsyniad ar sail gwybodaeth yn ysgrifenedig gan eu rhieni neu warcheidwaid cyfreithiol. Rhaid cael cydsyniad penodol os bydd cyfweliadau neu arsylwadau'n cael eu recordio ar ffurf sain neu fideo. Rhaid ei gwneud yn glir bod gan gyfranogwr yr hawl i dynnu allan o'r gwaith ymchwil ac i dynnu eu cydsyniad yn ôl ar unrhyw gam yn ystod cyfnod y gwaith lle y mae'r dysgwyr yn casglu data a rhaid cyfathrebu sut y gellir gwneud hynny i'r cyfranogwr.

Atodiad 3: Canllaw ar Gyfrinachedd ac Anhysbysrwydd

- Rhaid parchu cyfrinachedd y cyfranogwyr, yn enwedig mewn perthynas ag unrhyw wybodaeth bersonol a geir ganddynt. Rhaid hysbysu'r cyfranogwyr yn ysgrifenedig sut y bydd hyn yn cael ei sicrhau.
- Fel arfer, rhaid i'r wybodaeth a ddefnyddir yn y ffurfiau asesu terfynol fod yn ddienw, ynghyd ag unrhyw fanylion eraill adnabyddadwy (e.e. enwau eglwysi neu brosiectau lleol). Dylai'r disgrifiadau o leoliad y gwaith ymchwil fod yn gyffredinol yn hytrach na phenodol (e.e. yn cyfeirio at 'eglwys mewn ardal ddiwydiannol mewn dinas drefol fawr, gyda chyfran uchel iawn o amrywiaeth hiliol a chrefyddol' yn hytrach na 'St Peter's, Moss Side').
- Cofiwch ei bod yn bosibl adnabod pobl yn hawdd o'u rôl neu fanylion y cyd-destun. Os yw ffactorau o'r fath yn golygu na ellir gwarantu anhysbysrwydd, rhaid gwneud hyn yn glir ar y cam pan ofynnir am gydsyniad.
- Dim ond pan fydd caniatâd pendant wedi'i roi gan unigolyn yn ysgrifenedig i ddefnyddio gwybodaeth bersonol adnabyddadwy y gellir gwneud hynny.
- Os yw'n ymddangos yn angenrheidiol cynnwys rhywbeth yn y dogfennau ategol fel cylchlythyr eglwys a fydd yn nodi ble y cynhaliwyd y gwaith ymchwil ac nid yw'n bosibl cael gwared ar fanylion o'r fath neu eu cuddio, rhaid cael caniatâd gan gorff awdurdodol cydnabyddedig e.e. Cyngor yr Eglwys Blwyf neu swyddog, a chan unrhyw un y mae eu cymeriad, barn ac ati yn ymddangos yn yr aseiniad ac y gellir eu hadnabod drwy'r deunydd yn y dogfennau ategol.
- Mae aseswyr y gwaith a gyflwynir wedi'u rhwymo gan yr un disgwyliadau o ran cyfrinachedd.
- Mae cyflwyno gwaith i'w asesu yn wahanol i'r gwaith a gyhoeddir. Mae gan y cyntaf system gyfrinachol o asesu, a'r ail gynulleidfa gyhoeddus ehangach. Os oes posibilrwydd y bydd yn cael ei gyhoeddi, rhaid hysbysu'r cyfranogwyr ynghylch hyn cyn dechrau'r gwaith ymchwil, a rhaid i'r posibilrwydd hwn ffurfio rhan amlwg o gael cydsyniad. Os bydd posibilrwydd y caiff ei gyhoeddi ar ôl derbyn cydsyniad, rhaid cael cydsyniad ysgrifenedig newydd.

Atodiad 4: Canllaw ar Gynnal Cyfweliadau

- Rhaid ichi ymddwyn yn gwrtais a pharchus ar bob achlysur.
- Eglurwch natur a diben eich prosiect i'r cyfweledig(ion).
- Eglurwch sut y bydd y cyfweliad yn cael ei ddefnyddio.
- Gofynnwch am ganiatâd i'r cyfweliad gael ei recordio os bydd hyn yn angenrheidiol.
- Nodwch yn glir y cwmpas cyfrinachedd o fewn y cyfweliad.
- Eglurwch yn glir y gall y cyfranogwr ddod â'r cyfweliad i ben ar unrhyw adeg.
- Gofynnwch am unrhyw gydsyniad yn ysgrifenedig.

Atodiad 5: Gweithdrefn ar gyfer Ymdrin â Data

Dechrau'r Broses: Yn gyntaf, dylai'r ymchwilwyr ystyried sut y bydd y data'n cael eu casglu, eu dadansoddi a'u rheoli a sut y bydd y data perthnasol yn cael eu darparu i eraill yn y pen draw, ac ar ba ffurf.

Cywirdeb: Dylai'r ymchwilwyr ystyried sut i gynnal cywirdeb y data e.e. nodiadau wedi'u trawsgrifio. Os oes unrhyw amheuaeth ynghylch cywirdeb data personol neu ddata eraill, yna ni ddylid eu defnyddio nes y gellir cadarnhau eu cywirdeb.

Cydsyniad: Rhaid i ymchwilwyr gael cydsyniad ar sail gwybodaeth gan unrhyw gyfranogwyr dynol. Ni ddylid cynnwys unrhyw gyfranogwr yn y gwaith ymchwil oni bai ei fod wedi rhoi cydsyniad. Os yw'n briodol, mae'n bosibl y bydd yn angenrheidiol rhoi cyfle yn ddiweddarach i'r cyfranogwyr adolygu eu data e.e. trawsgrifiadau o gyfweliadau, a'u diwygio os oes angen neu dynnu eu cydsyniad i'r data gael eu defnyddio yn ôl.

Hawliau'r Unigolyn: Mae gan unigolion, o dan y Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol, yr hawl i weld eu holl ddata personol a gedwir gan yr ymchwilydd. Cyfrifoldeb yr ymchwilydd unigol yw sicrhau y glynir wrth y rheoliadau GDPR.

Data Sensitif a Diogelwch: Rhaid storio unrhyw ddata, ffeiliau neu eitemau digidol neu electronig eraill, gan gynnwys deunydd sain neu fideo a ddefnyddir neu a gynhyrchir wrth gasglu deunydd sensitif, yn ddiogel. Ni ddylai ymchwilwyr adael cofnodion sy'n cynnwys data personol heb oruchwyliaeth mewn swyddfeydd neu fannau sy'n hygyrch i aelodau o'r cyhoedd. Dylent sicrhau nad yw data personol yn cael eu harddangos ar sgriniau cyfrifiaduron sy'n weledol i bobl sy'n cerdded heibio. Dylent fod yn ymwybodol bod yr ystyriaethau diogelwch hyn hefyd yn berthnasol i gofnodion sy'n cael eu symud o Badarn Sant e.e. ar liniadur i fan arall. Dylid gwneud data yn ddienw lle bynnag y bo'n bosibl er mwyn atal colli data personol adnabyddedig.

Mae Deddf Terfysgaeth 2006 a Deddf Gwrthderfysgaeth a Diogelwch 2015 yn ei gwneud yn anghyfreithlon dosbarthu cyhoeddiadau terfysgol os mai bwriad yr unigolyn dan sylw yw annog neu ysgogi eraill. Felly, rhaid cymryd gofal arbennig i edrych ar ôl data a deunyddiau ymchwil sy'n dod o fewn y categori hwn ac unrhyw ddeunydd sydd o bosibl yn sensitif yn droseddol mewn modd priodol, a dylid osgoi eu dosbarthu lle bynnag y bo'n bosibl. Dylid sganio ac uwchlwytho unrhyw ddeunyddiau papur fel llawlyfrau, adroddiadau neu gopïau caled o ddogfennau eraill i fan diogel, ac yna dylid dinistrio'r copi caled gwreiddiol. Os nad yw hynny'n bosibl, yna dylid cadw'r deunydd mewn cwpwrdd ffeilio, neu fan tebyg, o dan glo.

Adolygu Ffeiliau: Dylai ymchwilwyr greu a chadw data personol dim ond pan fo hynny'n hollol angenrheidiol. Dylent gael gwared ar unrhyw ddata personol sydd

wedi dyddio, sy'n amherthnasol neu nad oes eu hangen mwyaf neu eu dileu mewn modd diogel. Mae'n arfer da adolygu'r ffeiliau yn rheolaidd a chael gwared ar unrhyw ddata dianghenraid neu nad oes eu hangen bellach mewn modd systematig.

Cadw data: Yn amodol ar unrhyw ofynion cyfreithiol neu foesegol, neu ofynion eraill, dylid cadw data yn gyflawn am unrhyw gyfnod a bennir yn gyfreithiol ac fel arall am y cyfnod o amser a ganlyn ar ôl i'r prosiect ddod i ben: e.e. 1 flwyddyn ar gyfer astudiaethau israddedig, 2 flynedd ar gyfer astudiaethau ôl-raddedig, a chwe blynedd ar gyfer astudiaethau lefel 8.

Cael Gwared ar Gofnodion: Wrth gael gwared ar gofnodion papur sy'n cynnwys data personol, dylid ymdrin â nhw mewn modd cyfrinachol (h.y. torri ffeiliau o'r fath yn fân yn hytrach na'u taflu fel papur gwastraff). Yn yr un modd, dylid dileu unrhyw gofnodion electronig dianghenraid neu sydd wedi dyddio.

Trydydd Partïon: Ni ddylid datgelu data personol fyth i drydydd partïon heb ganiatâd yr unigolyn dan sylw neu unrhyw gyfiawnhad rhesymol arall. Mae hyn yn cynnwys rhieni, gwarcheidwaid, perthnasau, a ffrindiau testun y data, nad oes ganddynt unrhyw hawl i gael mynediad at wybodaeth heb gydsyniad testun y data. Dim ond at ddibenion sy'n gysylltiedig ag astudiaethau dysgwr ac i fodloni gofynion statudol neu gyfreithiol y gellir datgelu data personol i drydydd parti yn gyfreithlon, ond dim ond pan fydd Athrofa Padarn Sant yn fodlon ynghylch hunaniaeth yr ymholwr a chyfreithlondeb y cais. Dylai ymchwilwyr gynnal cyfrinachedd hefyd lle y gwnaed ymrwymiadau i drydydd partïon neu sefydliadau eraill, neu i ddiogelu hawliau eiddo deallusol. Dylai dysgwyr sicrhau hefyd, cyhyd ag y bo'n ymarferol bosibl, nad ydynt yn datgelu manylion dianghenraid eu testunau sydd o natur adnabyddadwy i'w goruchwylwyr neu i aelodau eraill o gymuned Athrofa Padarn Sant.

Atodiad 6: Canllaw ar gyfer y Ffurflen Gydsynio i Gyfranogwyr

Cod Adnabod y Cyfranogwr (os yw'n briodol):

Teitl y Prosiect:

Enw'r Ymchwilydd:

Enw'r Goruchwyliwr (os yw'n briodol):

Darllenwch a llofnodwch os gwelwch yn dda:
(Dylid cynnwys gwybodaeth ychwanegol fel sy'n briodol, e.e. 'Rwy'n cytuno i'r cyfweliad gael ei recordio ar ffurf sain).

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi darllen a deall y daflen wybodaeth ynghylch y prosiect a enwir uchod a fy mod wedi cael cyfle i ofyn cwestiynau.

Rwy'n deall fy mod yn cyfranogi'n wirfoddol a fy mod yn rhydd i dynnu'n ôl ar unrhyw adeg cyn i'r prosiect ymchwil gael ei ysgrifennu, heb roi unrhyw reswm.

Rwy'n cytuno i gymryd rhan yn y prosiect hwn.

Enw'r cyfranogwr:

Dyddiad:

Llofnod:

Enw'r ymchwilydd:

Dyddiad:

Llofnod:

Rhoddir copi o'r ffurflen gydsynio hon wedi'i llofnodi a'i dyddio i'r cyfranogwyr. Bydd yr ymchwilydd yn cadw'r ffurflen gydsynio wreiddiol wedi'i llofnodi.

Atodiad 7: Canllaw ar gyfer y Daflen Wybodaeth i Gyfranogwyr

Dylid rhoi gwybodaeth ddigonol i ddarpar gyfranogwyr yn eich gwaith ymchwil i'w galluogi i benderfynu a ydynt yn dymuno cymryd rhan ai peidio. Dylid darparu'r wybodaeth a roddwch gan ddefnyddio iaith glir, annhechnegol sy'n hawdd i'w deall. Dylech gynnwys y wybodaeth a ganlyn:

1. Teitl yr Astudiaeth
Rhowch deitl i'ch astudiaeth. Os yw'n cynnwys termau technegol neu nid yw'n hunanesboniadol i berson lleyg, dylech gynnwys disgrifiad byr.

2. Rhowch wahoddiad i gymryd rhan
Paragraff byr yn gwahodd yr unigolyn i gymryd rhan. Er enghraifft:
Fe'ch gwahoddir i gymryd rhan mewn astudiaeth ymchwil. Er mwyn eich cynorthwyo i benderfynu, mae'n bwysig eich bod yn deall pam y mae'r gwaith ymchwil yn cael ei wneud a beth fydd ei gynnwys. Cymerwch amser i ddarllen y wybodaeth a ganlyn yn ofalus. Mae'n bosibl y byddwch yn dymuno ei thrafod ag eraill. I gael rhagor o wybodaeth neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am fy ngwaith ymchwil, cysylltwch â mi ar: XXXX

3. Darparwch Wybodaeth Gryno ynghylch Amcanion a Diben y Prosiect

4. Eglurwch pam y mae'r Unigolyn wedi'i Ddewis a phwy arall a fydd yn cymryd rhan

5. Cydsyniad ar sail Gwybodaeth
Dylid hysbysu'r darpar gyfranogwr bod cymryd rhan yn gwbl wirfoddol. Er enghraifft: Rydych yn rhydd i benderfynu a ydych am gymryd rhan ai peidio. Os ydych yn penderfynu nad ydych yn dymuno cymryd rhan, mae hawl gennych dynnu'n ôl ar unrhyw adeg, heb roi rheswm. Fel arfer, nid yw'n ymarferol tynnu'n ôl ar ôl i'r prosiect ymchwil gael ei ysgrifennu. Os byddwch yn cymryd rhan, bydd gofyn ichi lofnodi ffurflen gydsynio, a byddwch yn derbyn copi ohoni i'w chadw.

6. Gwybodaeth am gynnwys y Gwaith Ymchwil
Disgrifiad clir o'r hyn y bydd gofyn i'r cyfranogwr ei wneud, gan roi syniad o faint o amser y bydd yn ei gymryd. Dylech roi gwybodaeth am eich dull ymchwil e.e. cyfweliad neu grŵp ffocws.

7. Gwybodaeth am unrhyw Risgiau neu Fuddion i'r Cyfranogwr
Risgiau – er enghraifft, os yw eich cyfweliad yn mynd i'r afael â materion personol poenus o bosibl a allai effeithio ar lesiant y cyfranogwr, dylech eu hysbysu ynghylch y posibilrwydd hwn, a darparu gwybodaeth ynghylch pwy y dylent gysylltu â nhw am gymorth os yw hyn yn digwydd.

Buddion - er enghraifft, mae'n bosibl y bydd eich gwaith ymchwil yn darparu cyfle i gyfrannu at ein dealltwriaeth o bwnc penodol. Peidiwch â gorliwio'r buddion os nad oes rhai amlwg.

8. Cyfrinachedd

Dylech ddarparu gwybodaeth ynghylch cyfyngiadau cyfrinachedd a diogelwch gwybodaeth. Darparwch fanylion penodol ynghylch sut y bydd cyfrinachedd yn cael ei gynnal a phwy sy'n debygol o gael mynediad at wybodaeth bersonol e.e. goruchwylwyr, arholwyr mewnol ac allanol. Peidiwch â gado cyfrinachedd absoliwt oherwydd mae'n bosibl y bydd gan eraill fynediad cyfyngedig i ddata er mwyn marcio / adolygu'r prosiect, ond nodwch y bydd pob ymdrech yn cael ei wneud i sicrhau cymaint o gyfrinachedd â phosibl. O dan amgylchiadau arferol, ni ddylai unrhyw un arall gael mynediad at fanylion neu ddata'r cyfranogwr. Mae cyfrinachedd yn cynnwys y ffaith bod unigolyn yn cyfranogi yn ogystal â'u data. Dim ond mewn amgylchiadau eithriadol y byddai angen rhannu manylion neu ddata amrwd personol.

9. Data

Darparwch wybodaeth ynghylch yr hyn a fydd yn digwydd i'r wybodaeth a gasglwch ac unrhyw fanylion ynghylch y cyfranogwr; sut a ble y bydd yn cael ei chyflwyno, pwy sy'n debygol o'i darllen ac a fydd arolygon a chyfweliadau'n cael eu dinistrio ar ôl marcio'r asesiad. Hysbyswch y cyfranogwr ynghylch i ba raddau y gellid eu hadnabod neu beidio. Os bydd data'n cael eu cadw ar ddiwedd y prosiect, rhaid ichi roi gwybodaeth glir ynghylch sut a pham y bydd hyn yn digwydd.

10. Rhagor o wybodaeth

Darparwch wybodaeth gyswllt ar gyfer eich hunan a'ch goruchwyliwr (os yw'n briodol) y gall y darpar gyfranogwr ei defnyddio os oes angen rhagor o wybodaeth arnynt ac yr hoffent gymryd rhan. Cyfeiriwch y darpar gyfranogwr at Bolisi Moeseg Ymchwil Athrofa Padarn Sant a gadewch iddynt wybod lle y gellir ei weld.
Diolchwch i'r darpar gyfranogwr am ystyried cymryd rhan.

Rhaid rhoi copi o'r daflen wybodaeth a chopi o'r ffurflen gydsynio wedi'i llofnodi a'i dyddio i'r cyfranogwyr. Bydd y ffurflen gydsynio wreiddiol wedi'i llofnodi yn cael ei chadw gan yr ymchwilydd.